Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad arolygiad monitro blynyddol ar

# Priority Childcare

**Dyddiad yr arolygiad: Mai 2017**

**by**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

**© Hawlfraint y Goron 2017: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 12/07/2017**

## Cyd-destun

Mae Priority Childcare wedi'i gofrestru'n ysgol annibynnol i ddarparu addysg yn fewnol i blant 8 i 18 oed, sy'n preswylio yng nghartrefi plant y cwmni, na allant gael addysg brif ffrwd. Agorodd yr ysgol yn 2015 ac mae'n gweithredu mewn ystafelloedd dosbarth yn nhri o bump cartref plant y cwmni: Trafle Lodge, Tŷ George a Chraig Y Bedw.

Ar hyn o bryd, mae pump o ddisgyblion ar y gofrestr yn yr ysgol. Mae'r holl ddisgyblion yn derbyn gofal gan eu hawdurdod lleol.

Mae'r pennaeth addysg wedi bod yn ei swydd er Medi 2016 ac mae'n goruchwylio'r addysg ar draws y tri safle. Penodwyd athro yn Ebrill 2016. Mae'r athro a'r cynorthwywyr dysgu yn cyfarfod yn wythnosol i gynllunio profiadau dysgu ar gyfer pob disgybl. Mae'r safleoedd yn rhannu dogfennau cyffredin sy'n cynnwys polisïau'r ysgol, cynllun gwella a threfniadau ar gyfer cynllunio a chyflwyno gwersi.

Mae'r ysgol yn cynnig addysg amser llawn ac yn dilyn tymhorau ysgol yr awdurdod lleol.

## Prif ganfyddiadau

### Cryfderau

Mae'r pennaeth addysg yn cynnig arweinyddiaeth effeithiol ar gyfer rhedeg yr ysgol o ddydd i ddydd. Mae wedi sefydlu gweledigaeth strategol glir i'r ysgol, gyda ffocws priodol ar ddarparu cwricwlwm sydd wedi'i deilwra i anghenion a diddordebau unigol pob disgybl. Mae gweithdrefnau newydd i sicrhau ansawdd agweddau pwysig ar waith yr ysgol, gan gynnwys ansawdd yr addysgu a'r safonau y mae disgyblion yn eu cyflawni. Mae gan yr ysgol gynllun gwella defnyddiol sy'n nodi targedau clir ac yn neilltuo amserlenni ac adnoddau priodol. Mae'r cynllun gwella yn cynnig cyfeiriad effeithiol i waith yr ysgol.

Mae'r ysgol wedi cyflwyno asesiadau gwaelodlin defnyddiol i nodi anghenion llythrennedd, rhifedd a lles disgyblion. Mae athrawon wedi dechrau defnyddio'r wybodaeth hon yn eu cynllunio tymor byr. O ganlyniad, mae'r ysgol yn darparu profiadau dysgu sy'n bodloni anghenion unigol y disgyblion yn dda. Mae gan addysgu ffocws cadarn ar ddatblygu hunan-barch, hyder a medrau llythrennedd disgyblion.

Mae'r ysgol wedi sefydlu partneriaethau effeithiol gydag asiantaethau arbenigol sy'n darparu therapïau sy'n cefnogi anghenion lles canfyddedig disgyblion.

Mae perthnasoedd rhwng y staff a'r disgyblion yn gadarnhaol ar y cyfan, ac mae bron pob un o'r disgyblion yn ymateb yn dda i geisiadau'r staff, yn ymddwyn yn dda mewn gwersi ac yn groesawgar i ymwelwyr.

## Meysydd i'w datblygu

Nid yw'r ysgol yn bodloni gofynion Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003 yn llawn.

Mae'r ysgol wedi mabwysiadu cynllun cwricwlwm sydd ar gael yn fasnachol ar gyfer disgyblion cyfnodau allweddol 2 a 3, sy'n hyrwyddo dull o ddysgu sy'n seiliedig ar destunau. Mae disgyblion cyfnod allweddol 4 ac ôl-16 yn dilyn unedau gwaith Agored Cymru. Mae staff wedi cynnwys agweddau ar y rhan fwyaf o feysydd dysgu mewn testunau sydd wedi'u cynllunio ar gyfer pob disgybl. Fodd bynnag, nid yw cynlluniau'r cwricwlwm a chynlluniau gwaith yn ymdrin â datblygiad medrau rhifedd yn ddigon manwl. Yn gyffredinol, nid yw cynllunio ar gyfer pynciau a disgyblion unigol yn nodi sut bydd disgyblion yn adeiladu'n systematig ar fedrau a gwybodaeth sydd eisoes yn bodoli wrth iddynt symud drwy'r ysgol.

Er bod yr ysgol wedi cyflwyno asesiadau gwaelodlin defnyddiol i ddisgyblion adeg mynediad, nid oes fframwaith asesu ar waith i olrhain y cynnydd a wna disgyblion.

## Argymhellion

A1 Sicrhau cydymffurfiaeth â Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003

A2 Sicrhau bod cynllunio gan staff yn nodi sut bydd disgyblion yn adeiladu'n systematig ar fedrau a gwybodaeth bresennol wrth iddyn nhw symud drwy'r ysgol

## Cydymffurfio â'r safonau ar gyfer cofrestru

### Safon 1: Ansawdd yr addysg a ddarperir gan yr ysgol

Nid yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddiol ar gyfer y safon hon yn llawn. Er mwyn cydymffurfio'n llawn â Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003, dylai'r ysgol:

- Ddatblygu cynlluniau gwaith manwl i ategu polisi'r cwricwlwm [1(2)]
- Datblygu fframwaith ar gyfer arfarnu perfformiad disgyblion, gan gyfeirio naill ai at nodau'r ysgol ei hun, fel y'u darparwyd i rieni, a/neu yn ôl normau cenedlaethol [1(4)]

### Safon 2: Datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes tystiolaeth i nodi nad yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddiol ar gyfer y safon hon.

### Safon 3: Lles, iechyd a diogelwch disgyblion

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes tystiolaeth i nodi nad yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddiol ar gyfer y safon hon.

### Safon 4: Addasrwydd perchnogion a staff

Ar yr ymweliad hwn, ni wnaeth Estyn arolygu Safon 4.

### Safon 5: Eiddo a llety preswyl mewn ysgolion

Ar yr ymweliad hwn, ni wnaeth Estyn arolygu Safon 5.

### Safon 6: Darparu gwybodaeth

Ar yr ymweliad hwn, ni wnaeth Estyn arolygu Safon 6.

### Safon 7: Y modd yr eir i'r afael â chwynion

Ar yr ymweliad hwn, ni wnaeth Estyn arolygu Safon 7.

## Argymhelliad ynghylch cofrestru

Wrth ystyried cofrestriad yr ysgol hon, gallai Cynulliad Cenedlaethol Cymru ddymuno ystyried yr argymhelliad canlynol:

Ar hyn o bryd, nid yw'r ysgol yn bodloni gofynion Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003. I gydymffurfio â'r gofynion hyn yn llawn, dylai'r ysgol fynd i'r afael â'r materion a nodwyd uchod ar gyfer pob safon.

Ni ddylai barnau arolygwyr ar yr arolygiad monitro blynyddol hwn niweidio canfyddiadau arolygiad Adran 163 llawn yn y dyfodol.

## Gwybodaeth am yr ysgol

| | |
|---|---|
| **Ysgol** | Priority Childcare |
| **Rhif yr ysgol** | 6706026 |
| **Diben yr ymweliad** | Arolygiad monitro blynyddol |
| **Dyddiad yr ymweliad** | 08/05/2017 |
| **Perchennog** | Priority Childcare. |
| **Staff** | 1 pennaeth addysg, 1 athro, 3 chynorthwyydd addysgu |
| **Nifer y disgyblion** | 5 |
| **Darpariaeth** | Darpariaeth ddydd i blant a osodwyd yng nghartrefi plant y cwmni |
| **Math o angen addysgol arbennig y mae'r ysgol yn darparu ar ei gyfer** | Anawsterau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol |
| **Arolygiad Adran 163 diwethaf** | Dd/B |
| **Arolygiad monitro blynyddol diwethaf** | Dd/B |
| **Arolygiad diwethaf gan AGGCC** | |

## Gwybodaeth am y tîm

| | |
|---|---|
| Mr Anthony Mulcahy | Arolygydd Cofnodol |
| Miss Jassa Scott | Arolygydd Tîm |